

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion Cyfarfod

Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2023

Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd
y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL)
Phil Snaith (PS)
Sean Brown (SB)
Karen Burch (KB)
Jillie Gardner (JG)
Wyn Owen (WO)
Mo Rapley (MO)
Peter Griffiths (PG)
David Gravelle (DG)

Ysgrifennydd - Jason Lawday (JL) (ILS) – Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad CSC

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:

Amy Goodwin a Rebecca Brough - Cerddwyr Cymru (AG) (RB)
Phillip Morgan (CNC) (PM)
Julie Sweet (JS)
Peter Clarke (Cerddwyr Llanelli) (PC)
Y Cynghorydd Edward Thomas (ET)

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Tara-Jane Sutcliffe (TJS)
David Stacey (DS)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Sam Palmer (Llwybr Dyffryn Tywi) (SP)
Elgan Evans (Llwybr Dyffryn Tywi) (EE)
Neil Thomas (NT)

Nodyn:

Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir
Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at

Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

EITEM	CAMAU GWEITHRE DU
Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU Croesawodd MH a JL y fforwm. Darllenodd MH / JL yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law. Cytunodd MH / JL i newid trefn eitemau ar yr Agenda a gadael eitem 3 i'r diwedd, os bydd amser yn caniatáu.	
<u>Eitem 2 CERDDWYR CYMRU – Cyflwyniad i staff newydd ac Arolwg Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.</u> Cyflwynodd RB ac AG eu hunain gan egluro eu rolau mewn perthynas â'r arolwg rhwydwaith parhaus a recriwtio gwirfoddolwyr. Bydd AG allan o amgylch y lle ar ôl y Nadolig i gwrdd a recriwtio, gyda'r bwriad o adeiladu sylfaen o 100 o wirfoddolwyr. Y prif nod yw galluogi gwirfoddolwyr i gynnal arolygon, sy'n cynnwys gwaith clirio ysgafn. Yn y tymor hirach, gobeithir y bydd gwirfoddolwyr yn parhau i gynorthwyo CSC i fonitro a chynnal rhwydwaith HTC gyda chymorth Swyddog Prosiect CSC sydd newydd ei benodi, ynghyd â chefnogaeth barhaus gan Gerddwyr Cymru (gobeithio) os gellir sicrhau cyllid pellach. JG – Gofynnwyd i wybodaeth berthnasol gael ei hanfon i'r Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer cyhoeddusrwydd a recriwtio. Holwyd hefyd wrth PM sut y byddai gwaith gwirfoddol yn cael ei wneud ar eiddo CNC. Atebodd PM eu bod hefyd yn gweithio gyda gwirfoddolwyr mewn ardaloedd eraill, ac y byddai'n gwneud ymholiadau am hyn. RL – gofynnodd am gyllid a hyd, RB - diwedd mis Medi 2024. MH – gofynnodd a fyddai Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOAT's) yn cael eu cynnwys, ILS – na, gan fod y rhain yn dod o dan gylch gwaith yr Adran Prifffyrdd, ond byddaf yn cadarnhau. MH – sut fydd gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio? AG a RB – i ddechrau drwy'r grwpiau Cerddwyr Lleol ond bydd hefyd yn recriwtio'n ehangach. Argymhellodd MH fod AG ac RB yn defnyddio tîm marchnata CSC trwy Sarah Owen. KB – holodd a fyddai llwybrau Ffyrdd Sirol Diddosbarth sy'n destun Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn cael eu harolygu. ILS - atebodd gan ddweud nad yw Ffyrdd Sirol Diddosbarth wedi'u cynnwys yn yr arolwg, gan mai cyfrifoldeb Prifffyrdd ydynt. Gellir eithrio unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Orchmynion Rheoleiddio Traffig, neu dderbyn arolygon rhannol, yn dibynnu ar natur y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig [Mae rhai Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn rhai tymor byr at ddibenion diogelwch y cyhoedd, felly efallai na fydd y rhain yn addas a gellid eu dilyn unwaith y bydd y mater diogelwch wedi'i ddatrys]. RL – holodd am ganran y rhwydwaith sydd i'w arolygu. ILS – atebodd mai'r bwriad yw y byddai 50% o gategorïau 'A' a 'B' (ac eithrio llwybrau ceffylau) yn hierarchaeth y rhwydwaith yn cael eu harolygu gan y parcmyn fel rhan o'u dyletswyddau rheolaidd, gan fod llawer o wybodaeth eisoes yn cael ei chadw ar y llwybrau hyn. Bydd y gwirfoddolwyr yn arolygu 75% o'r llwybrau categori 'C', 'D' ac 'E', yn ogystal â 75% o lwybrau ceffylau (categori 'B'). PS – holodd faint o waith fyddai'n cael ei wneud. ILS - eglurodd mai nod cychwynnol y prosiect yw cynnal yr arolwg rhwydwaith, ond y gobaith yw y byddai'r grwpiau gwirfoddol yn cael eu cadw ac y byddent yn parhau i fonitro a chynnal HTC wrth symud ymlaen. Y gobaith hefyd yw y gellir dod o hyd i gyllid ychwanegol i gadw cymorth Cerddwyr Cymru.	PM ILS

SB – holodd sut y byddai'r data'n cael ei gasglu a'i gofnodi. AG / RB / ILS - eglurwyd y byddai hyn trwy wahanol ffyrdd, yn bennaf trwy fapiau corfforol, yn ogystal â dyfeisiau mapio symudol personol. Byddai gwybodaeth yr arolwg wedyn yn cael ei rhoi i CAMSWebb gan syrfewyr unigol neu bobl enwebedig. SB – holodd am amseroedd llwytho hir, atebodd ILS gan ddweud y gallai'r rhain amrywio a bod croeso i wirfoddolwyr ddod i'r swyddfa i fewnbynnu data.	ILS
JG – meddwl y dylid marchnata'r cyfleuster CAMSWebb yn ehangach. MH - bu problemau o'r blaen gyda grwpiau'n cynnig cymorth gwirfoddol sydd wedi cael eu hanwybyddu gan CSC. ILS - Roedd hyn yn bennaf mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd a chefnffyrdd di-ddosbarth 'lonydd gwyrdd' y mae'r Adran Priffyrdd yn gyfrifol amdanynt, ac sydd y tu allan i gwmpas y prosiect, ond efallai y byddai gan y grwpiau hyn ddiddordeb mewn cymryd rhan?	ILS
RB – yn meddwl ei bod yn ganmoladwy o CSC eu bod wedi 'codi eu pennau uwchben y parapet', gan y bydd y prosiect yn siŵr o arwain at gynnydd mewn llwyth gwaith. JS – holodd beth oedd y pwynt o gasglu'r wybodaeth pan mae gan CSC lawer o wybodaeth eisoes ac ôl-groniad enfawr o waith? ILS - eglurodd y byddai llawer o'r wybodaeth ar y system yn hen, a bod bylchau sylweddol o hyd. Efallai na fydd rhai materion sydd wedi'u cofnodi yn faterion mwyach. Efallai y bydd strwythurau nad yw CSC yn gwybod amdanynt y bydd angen eu cofnodi a'u gwerthuso, megis mân bontydd troed (mae llawer o hen bontydd yn y Sir sydd angen eu hatgyweirio neu eu hadnewyddu). Byddai'r arolwg yn rhoi cyfle i ni asesu cyflwr y rhwydwaith yn gywir a lefel y buddsoddiad sydd ei angen i wneud gwelliannau angenrheidiol. MH – diolchodd wrth AG a RB	ILS
Cam Gweithredu – CSC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect ym mhob cyfarfod o'r Fforwm Mynediad Lleol. ILS i'w ychwanegu fel Cam Gweithredu / Eitem Agenda.	JL
<u>Eitem 3 CYFLWYNIAD BYR I'R BROSES GOFRESTRU HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS YN SIR GAERFYRDDIN</u> - JL	
Oherwydd agenda lawn, symudwyd hyn i ddiwedd y cyfarfod, ond fe wnaethom redeg allan o amser wedyn. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gyflawni yn y cyfarfod nesaf.	
<u>EITEM 4 – GORCHMYNION ADDASU LLWYBRAU BEICIO - ILS</u>	
Darllenodd ILS ddiweddiariad am y prosiect a dderbyniwyd gan Gemma Thomas, Prif Gynllunydd Trafnidiaeth WSP, a gomisiynwyd i ddatblygu'r Gorchmynion addasu. Nid yw'r ymgynghoriad yn barod i'w gynnal eto, gan nad yw pob tirfeddiannwr wedi cael ei nodi ac ni chysylltwyd â nhw. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud, bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal, a bydd y Fforwm Mynediad Lleol wedi'i gynnwys fel ymgynghoreion. PS – cwestiynodd yr angen am fanylion cyswllt tirfeddianwyr, gan ei fod yn credu bod yr holl dir yn eiddo i CSC. MH – a oedd yr addasiadau yn cael eu gwneud o dan un Gorchmyn neu nifer o Orchmynion? Sut mae hyn yn cael ei flaenoriaethu? KB – Sawl llwybr a beth yw'r hyd cyfan? JG – gofynnodd am fap o'r llwybrau.	ILS
Cam Gweithredu – ILS i ddilyn hynt hyn ac egluro'r ymholiadau uchod.	
<u>Eitem 5 – CANLLAW TIRFEDDIANNWR I HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS A PHOLISI CODI TÂL</u>	

ILS - rhoddodd gefndir: Mae CSC wedi cynhyrchu canllaw tîrfeiddiannwr, sydd ar gael ar wefan CSC ac mewn fformat caled o'n swyddfeidd a'n Canolfannau HWB. Cyflwynwyd y canllaw yn Fforwm y Cyngor Tref a Chymuned ym mis Hydref. RL – mae'r canllaw yn cyfeirio at bolisi codi tâl CSC, sydd heb fod ar gael ar-lein. MH – mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn argymhell bod y Polisi Codi Tâl a'r Hierarchaeth Rhwydwaith yn cael eu cynnwys ar y wefan.	ILS
Cam Gweithredu – edrych ar gynnwys y Polisi Codi Tâl a Hierarchaeth Rhwydwaith ar y wefan.	
<u>Eitem 6 – SCO/01896 PROSIECT GREEN GEN TYWI-WYSG</u>	
ILS – rhoddodd wybodaeth gefndir a arweiniodd at drafodaeth gyffredinol ar yr ymgynghoriad a'r prosiect. Cytunwyd yn gyffredinol hyd nes bod mwy o fanylion am leoliadau a natur gwirioneddol seilwaith a gwaith na fyddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn gallu darparu ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Cadarnhaodd ILS fod ymateb ffurfiol wedi'i gyflwyno gan Dîm Mynediad i Gefn Gwlad CSC ac y byddai'n parhau i ddiweddaru'r Fforwm Mynediad Lleol. RL – wedi cysylltu â'r datblygwr a gofyn i'r Fforwm Mynediad Lleol gael ei gynnwys fel ymgynghorwyr. Cafwyd trafodaeth fer yn tynnu sylw at gymhlethdod y materion sy'n cydbwysu anghenion ynni cynaliadwy yn y dyfodol yn erbyn cadw'r amgylchedd naturiol. Bydd hyn yn cael ei ailystyried pan fydd yr ymgynghoriad nesaf yn cael ei gynnal."	
<u>Eitem 7 – DIWEDDARIAD FFORWM MYNEDIAD CENEDLAETHOL</u>	
ILS – rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y prif bwyntiau ymholi a godwyd yn y ddau gyfarfod Fforwm Mynediad Cenedlaethol diwethaf. Roedd y rhain o ran newidiadau arfaethedig i reoliadau'r Fforwm Mynediad Lleol ynghylch hyd yr aelodaeth. Mae materion tebyg ar draws Cymru, gan fod llawer o Fforymau Mynediad Lleol yn cadw aelodau am gyfnod hirach na'r tymor arferol oherwydd materion recriwtio. Nid yw rhai awdurdodau wedi gallu recriwtio digon o aelodau i ffurfio Fforwm Mynediad Lleol, ac ofnir drwy ei gwneud yn ofynnol i aelodau gamu i lawr gallai arwain at golli arbenigedd gwerthfawr ac o bosibl hyfywedd y Fforwm Mynediad Lleol. Bydd ILS yn parhau i ddiweddaru'r Fforwm Mynediad Lleol.	ILS
<u>Eitem 8 – DIWEDDARIAD YNGHYLCH PROSIECTAU</u>	ILS
ILS – darllenodd ddiweddariad gan Alan Warner, Rheolwr Hamdden a Mynediad (AW). Mae'r Fforwm Mynediad Lleol wedi gofyn i'r diweddariad gael ei gynnwys yn y Cofnodion fel ei fod yn cael ei gadw er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol:	
<i>Diweddariad cynnal a chadw rhwng 01/04/2023 i 11/12/2023</i>	
<i>Nifer y materion a ddatryswyd – 571, wedi'u rhannu isod-</i>	ILS
<i>Amrywiol (recordiwyd ar CAMS) – 13</i> <i>Atgyweiriadau llwybrau pren – 8</i> <i>Gwelliannau pontydd – 42</i> <i>Ffensys Traws Lwybrau – 5</i> <i>Atgyweirio/Cyfnewid Gatiau – 18</i> <i>Materion Tir – 33</i> <i>Materion Llustyfiant – 203</i>	ILS
<i>Grant Gwella Mynediad –</i>	

<i>Mae 3 o 4 pont wedi'u gosod, bydd y rhai olaf yn cael eu gwneud cyn y Nadolig</i> <i>Mae prosiect Mynydd Mallaen ar fin digwydd. (Oedi gan y tywydd)</i> <i>Prosiect arwyddion wedi'i gwblhau 100%.</i> <i>Cyfnod 3 Ffoslas – Prosiect Blwyddyn Newydd.</i>	ILS
<i>Llwybr Arfordir Cymru fel arfer, mae gwaith cynnal a chadw wedi'i wneud a dim ond 5 prosiect gwella bach sy'n cael eu gwneud eleni.</i> KB – holodd am ffensys yn Ffos Las	ILS
Cam Gweithredu – ILS i gael diweddariad.	ILS / MH
MH – dylai CSC wneud mwy o ddefnydd cyhoedduswydd o'r gwaith a wnaed. Cefnogwyd hyn gan aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol ac ET. Gellid ymchwilio i hyn gan is-grŵp cyhoedduswydd a marchnata y Fforwm Mynediad Lleol.	AW
Cam Gweithredu – edrych ar opsiynau ar gyfer mwy o gyhoedduswydd.	
KB – a ellid gwneud y Diweddariad Prosiectau yn haws i'w ddarllen a chynnwys mwy o fanylion?	
Cam Gweithredu – archwilio ffyrdd posibl o wella adroddiadau o ran y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brosiectau.	
MH – nid oes llawer o'r Tîm Cynnal a Chadw [Hamdden a Mynediad] wedi bod yn bresennol yn y Fforwm Mynediad Lleol - a ellir gwella hyn fel y gellid trafod y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a materion perthnasol eraill mewn mwy o fanylder? Arweiniodd hyn at drafodaeth ehangach ynghylch presenoldeb swyddogion, gyda chais i'r Pennaeth Gwasanaeth newydd a swyddogion eraill fynychu cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol. Mewn awdurdodau eraill, cynhelir Fforwm Mynediad Lleol yn ystod oriau gwaith arferol yn swyddfeydd yr awdurdod, lle gallai fod yn haws i swyddogion fynychu. Gellid ystyried hyn fel opsiwn, efallai ar gyfer cyfarfodydd untro, gan fod angen cyfarfodydd gyda'r nos o hyd oherwydd ymrwymïadau'r aelodau ei hun.	ILS / AW
Cam Gweithredu – trafod presenoldeb yn y dyfodol gydag AW ac edrych ar opsiynau i uwch-swyddogion fynychu / cwrdd â'r Fforwm Mynediad Lleol.	
JG - gofynnwyd beth oedd yn digwydd am y '10 Prosiect' a gynigiwyd yn flaenorol? (Mae hyn yn cyfeirio at restr o brosiectau arfaethedig yn y dyfodol yr ymgynghorwyd â'r Fforwm Mynediad Lleol arnynt).	ILS
Cam Gweithredu – diweddarau'r Fforwm Mynediad Lleol ynghylch y '10 Prosiect'.	
<u>EITEM 9 – ADRODDIADAU AR FATERION</u>	
RL – dim llawer o newid yn gyffredinol. Wedi cynnig mireinio ychwanegol o ran yr ystadegau wrth symud ymlaen a gofyn am ddarparu ystadegau ychwanegol hyd at ddiwedd mis Rhagfyr fel bod blwyddyn galendr gyfan o ystadegau ar gael.	
Cam Gweithredu – cysylltu ag Idox am ystadegau ychwanegol.	
RL - gofynnodd am ychwanegu Ffyrdd Sirol Diddosbarth i'r ystadegau. ILS - eglurodd mai dim ond hawliau tramwy cyhoeddus sy'n cael eu cofnodi ar ein system CAMS, ac mai Priffyrdd a Thrafnidiaeth sy'n gyfrifol am Ffyrdd Sirol Diddosbarth ac mae ganddyn nhw system fapio wahanol. Mae Ffyrdd Sirol Diddosbarth hefyd yn cynnwys yr holl rwydwaith isffyrdd ag arwyneb seliedig, nid y rhwydwaith 'lonydd	

gwyrdd' heb eu selio yn unig, felly byddai angen gwneud llawer o waith i ychwanegu'r wybodaeth hon i CAMS. RL - eglurodd nad categori swyddogol yw 'lôn werdd', dim ond disgrifiad corfforol [nodwch fod 'Lôn Werdd' yn cael ei ddefnyddio fel categori gan Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSC yn ei Hierarchaeth Rhwydwaith, a hefyd y categori is o 'Trac nad yw'n cael ei ddefnyddio']. ILS – eglurodd mai'r Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros Ffyrdd Sirol Diddosbarth a Chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOAT's), mae'r tîm Hamdden a Mynediad yn derbyn cyllid blyneddol i wneud gwaith gwella i'r llwybrau hyn. Mewn achosion o'r fath, caiff llwybrau eu hychwanegu at CAMS ar yr haen 'arfaethedig' ar sail llwybr unigol fel y gellir cofnodi gwybodaeth ar CAMS. Dim ond mewn perthynas â phrosiectau gwella untro y mae hyn ac ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer materion adrodd a chynnal a chadw cyffredinol, y dylid eu cyfeirio at yr Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth. Mae gan yr Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth system fapio wahanol sydd o bosib heb fod yn gydnaws iawn â CAMS. Cam Gweithredu – edrych ar opsiynau ar gyfer cynnwys Ffyrdd Sirol Diddosbarth ar CAMS. MH – mae'r Grŵp Cyswllt Defnyddwyr Cilffyrdd yn llunio rhestr o Gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig a Ffyrdd Sirol Diddosbarth. SB – yn llunio rhestr o lwybrau sy'n ddarostyngedig i Orchmynion Rheoleiddio Traffig. JG – mae camgymhariad o lwybrau mynediad a chyrchfannau, er enghraifft llwybrau sy'n arwain at Dir Comin.	ILS / AW ILS
EITEM 10 - MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL	
Ynghylch: Eitem 4 - Defnydd CNC o gwmni diogelwch preifat PM - darparodd y wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiad gyda chwmni diogelwch preifat yn atal mynediad cyfreithlon i dir CNC. Gan fod llawer o broblemau gyda gweithgareddau anghyfreithlon a thresmasu o dan gyfraith gwlad ar dir CNC, mae CNC wedi cael eu gorfodi i gyflogi cwmnïau diogelwch preifat ar gyfer adegau y tu allan i oriau mewn mannau problemus. Mae gan CNC bwerau o dan y Ddeddf Coedwigaeth i ymgymryd â gwaith gorfodi cyfreithiol. Ynghylch: Eitem 8 – Camau Gweithredu sy'n Codi (1) MH – holodd am y rhestr sylwedyddion / ymgynghorwyr. Eglurodd ILS fod y rhestr wedi'i diweddarau, ond bod rhai ymholiadau cyswllt heb eu hateb o hyd. Cam Gweithredu – parhau i ymchwilio i'r rhestr sylwedyddion / ymgynghorwyr. Ychwanegwch holl glercod Cynghorau Tref a Chymuned i'r rhestr gyswllt.	ILS ILS / JL
Ynghylch: Eitem 8 – Camau Gweithredu sy'n Codi (2) ET wedi gofyn am ddiweddiariad o ran y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Dywedodd ILS fod gwaith ymgynghorol wedi'i gwblhau, ond mae'r swyddogion Mynediad i Gefn Gwlad yn dal i fynd drwy'r argymhellion ac nid yw'r adolygiad o ran y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn barod ar gyfer ymgynghoriad eto. KB - yn teimlo y dylid symud ymlaen â'r Strategaeth Farchogaeth a'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gyda'i gilydd cyn i Caroline Ferguson (CF) ddychwelyd [9 o Ionawr]. Dylai cais am wybodaeth a wnaed fwy nag unwaith, ac yn enwedig yr arolwg ar y Strategaeth Farchogaeth, fod ar gael fel y gall y Fforwm Mynediad Lleol gynorthwyo ynghynt. JG - tynnodd sylw at y ffaith bod yr elfen Farchogaeth wedi'i symud allan o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fel y gallai gael strategaeth fwy manwl wrth symud ymlaen, ond mae hyn wedi arafu a gallem gael Cynllun Gwella Hawliau Tramwy heb elfen farchogaeth.	

Cam Gweithredu – cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r Strategaeth Farchogaeth. Ynghylch: Eitem 8 – Camau Gweithredu sy'n Codi (3) Adroddiad Blynyddol – mae MH yn teimlo na all wneud hyn mwyach, ac mai mater i'r awdurdod yw gwneud yr adroddiad. ILS – cynnig gwneud yr Adroddiad Blynyddol unwaith y bydd CF wedi dychwelyd. Ynghylch: Eitem 8 – Camau Gweithredu sy'n Codi (4) Llwybr Arfordir Cymru RL – rhoddodd wybod i'r Fforwm Mynediad Lleol bod yr awdur teithio Paddy Dillon (PD) wedi'i gomisiynu i ymchwilio i lwybrau cylchol byr sy'n cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru. Mae PD wedi bod yn arolygu gwahanol lwybrau yn Sir Gaerfyrddin. JL – wedi bod yn gweithio gyda PD ar lwybrau a grëwyd yn wreiddiol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn ystod y cyfnod adeiladu cychwynnol ond lle na chawsant eu defnyddio wedyn. Mewn dau achos, mae'r rhain yn dal i fodoli'n gorfforol ar lawr gwlad, ac nid oes ganddynt statws cyfreithiol y tu hwnt i fynediad caniatool. Y gobaith yw y gellir eu hadfywio a'u gwneud yn hawliau tramwy cyhoeddus. Ynghylch: Eitem 8 – Camau Gweithredu sy'n Codi (5) Is-grŵp Cyhoeddusrwydd a Marchnata y Fforwm Mynediad Lleol – RL – rhoddwyd gwybod i'r Fforwm Mynediad Lleol am y cynnydd cyffredinol ar lwybrau ac ychwanegwyd gwybodaeth at dudalennau gwe Darganfod Sir Gaerfyrddin CSC, ac mae gwaith yn dal i fynd rhagddo. <u>EITEM 9 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL</u> (1) Prosiect Adfer Llwybr Cilymaenllwyd – rhoddodd JS gyflwyniad i brosiect parhaus, a ddechreuodd ym mis Medi. Teimlai'r Fforwm Mynediad Lleol ei fod yn brosiect clodwiw a oedd yn cael ei gyflwyno ar lefel leol ac a fyddai'n gwasanaethu fel astudiaeth achos werthfawr. Cam Gweithredu – rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm Mynediad Lleol am gynnydd y prosiect. (2) Green Lane Environmental Action Movement (GLEAM) MH – darparodd drosolwg, dangosodd ILS ddogfen ymgynghori berthnasol. Cytunodd y Fforwm Mynediad Lleol nad oedd angen ymateb ffurfiol ar hyn o bryd, gan y byddai'r cynigion yn gofyn am fireinio pellach a newid deddfwriaethol. Cytunwyd y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn cadw brîff gwylio. (3) Llwybr Dyffryn Tywi – rhoddodd PS ddiweddariad byr. Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus yn ddiweddar ynghylch y gorchmynion prynu gorfodol sy'n angenrheidiol i ganiatáu i'r prosiect fynd yn ei flaen. Oherwydd y byr rybudd, ni allai'r Fforwm Mynediad Lleol fod yn bresennol yn ffurfiol. Mae gan yr arolygydd bum wythnos i wneud ei adroddiad, a fydd wedyn angen ei gymeradwyo gan weinidog Llywodraeth Cymru. Mae CSC yn paratoi deg contract ar gyfer cyflwyno gwahanol rannau o'r Llwybr. Gallai hyn fod yn fodel ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, megis llwybr aml-ddefnyddiwr arfaethedig Cardi Bach. (4) Safleoedd parcio APCOA yng Nghaerfyrddin PG - esboniodd fod yna gyfleuster parcio beiciau newydd yn Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin, sy'n cynnwys mannau gwefru trydan, ond bod arwyddion gwael iawn. Holodd MH a	ILS
--	------------

oedd yr HWB gerllaw yn gwybod am y cyfleuster parcio.

(5) Arolwg Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus – PC – esboniodd y byddai'n cwrdd ag AG, ddydd Mercher 13 Rhagfyr, ac y byddai'n trafod materion amrywiol gyda hi, er enghraifft, a ddylai gwirfoddolwyr gario prawf adnabod swyddogol wrth gynnal arolygon?

Cyfarfod Nesaf Dydd Mawrth 5 Mawrth 2024 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin (yn gynharach?)

Cyfarfod Canlynol Dydd Mawrth 6 Mehefin 2024 - Canolfan Tywi, Llandeilo